@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher:* Mr Gareth L James

### Taith Blwyddyn 5 a 6 i Wersyll yr Urdd Glan-llyn

Dymunwn yn dda i'r holl ddisgyblion a staff fydd yn treulio tridiau yng Nglan-llyn yr wythnos nesaf. Mi fydd y bysiau yn gadael am tua 9:30yb ar ddydd Llun, Mai 20fed ac yn dychwelyd erbyn 3.00 ar ddydd Mercher, Mai 22ain.
Mae holl fanylion y daith eisoes wedi'u rhannu gyda'r rhieni a gwarcheidwaid.

### Criced i flwyddyn 4



Pob dymuniad da i dimau criced blwyddyn 4 wythnos nesaf wrth iddynt chwarae ar Gaeau'r Ficerdy ac ar Gaeau'r Ysgol Gymraeg ar ddydd Mawrth 21ain o Fai.

### Eisteddfod yr Urdd

Byddaf yn rhannu'r tocynnau gyda'r plant ddiwedd wythnos nesaf ar gyfer cael mynediad i faes Eisteddfod yr Urdd ym Meifod.
Er gwybodaeth, mae mynediad am ddim i deuluoedd incwm is i'r Eisteddfod – dyma'r ddolen am fwy o wybodaeth.

> ***Blwyddyn 3** – Os ydych chi ar y maes ar ddydd Llun y 27ain, mae croeso i chi fynd draw i gwrdd gyda Mrs Buddug Davies am 3 o'r gloch yn yr ardal Celf a Chrefft i dderbyn y 3edd wobr am eich cywaith.

### Y Gymraeg




* MAE STWNSH SADWRN YN ÔL! *
A oes gyda chi unrhyw negeseuon pwysig i'w rhannu ar wal Stwnsh Sadwrn?
Mae Stwnsh Sadwrn yn ôl ar y sgrîn fore Sadwrn yma am 8.
Os oes unrhyw negeseuon o'ch Ysgol chi, anfonwch nhw i mewn drwy'r ddolen isod:
https://www.s4c.cymru/cy/stwnsh/stwnsh-sadwrn/page/24859/cysylltu/
Edrychwn ymlaen at ddarllen eich negeseuon ar y wal.

Hwyl am y tro, Sgwod s+dwrn 😊

### Gwlad y Rwla

Wedi'r gwyliau hanner tymor (4ydd o Fehefin) mi fydd y dosbarthiadau Derbyn, Bl.1a2 yn ymweld â Chanolfan y Celfyddydau ar gyfer gweld sioe 'Cerdyn Post o Wlad y Rwla'. Rydyn ni'n ddiolchgar unwaith eto i lywodraethwraig, Nia Evans, am gynorthwyo gyda chais grant 'Ewch i Weld' sydd yn cyfrannu £1,000 tuag at gostau'r ymweliad.
Rhannaf fwy o wybodaeth yn nes at yr amser ynglŷn ag amseroedd ac ati.



**Prynhawn Coffi**

Diolchwyd i chi am eich cefnogaeth i'r Prynhawn Coffi yn y llythyr wythnos diwethaf, ond roedd hi'n rhy gynnar i wybod faint a godwyd yn ystod y prynhawn! Yn dilyn gwerthiant y llyfrau raffl a'r gweithgareddau ar y noson gwnaethpwyd elw o £1480. Diolch yn enwedig i Siân, Geraint a Rhian am drefnu ac i bawb a gefnogodd yn ystod y prynhawn.

**NOSON BARBECIW**

Yn dilyn eich sylwadau yn yr holiadur i rieni y llynedd fod yr Ŵyl Haf a'r Barbeciw yn debyg iawn i'w gilydd, ac yn agos at ei gilydd, ry'n ni wedi penderfynu uno'r ddau ddigwyddiad eleni. Bydd y noson yn cael ei chynnal ar y Nos Iau olaf, sef Gorffennaf y 18fed ar iard a chae yr ysgol. Rhannwn fwy o wybodaeth gyda chi yn nes at yr amser.

**Calendr Hanner Tymor**

Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor ar gyfer yr **hanner tymor hwn**. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

**Dyddiadau pwysig yr hanner tymor nesaf**

Bydd yr ysgol yn cau ar gyfer gwyliau hanner tymor ar ddydd Gwener y 24ain o Fai, ac yn ail-agor ar ddydd Llun y 3ydd o Fehefin.
Gwersi beicio Blwyddyn 6 – Mehefin 4ydd – 7fed.
Ffotograffau dosbarth gyda chwmni Tempest – Dydd Mercher 12fed o Fehefin.
Mabolgampau Ysgol – dydd Iau yr 20fed o Fehefin.
H.M.S – Bydd yr ysgol ar gau i blant er mwyn hyfforddi staff ar ddydd Gwener yr 28ain o Fehefin 2024.
Cynhelir Barbeciw y G.Rh.A ar noson olaf-ond-un tymor yr haf, sef Nos Iau y 18fed o Orffennaf.

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth Dros Dro**
**17/05/2024**
🖰 www.ysgolgymraeg.cymru

@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru

Ysgol Gymraeg Aberystwyth

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher:* Mr Gareth L James

### *Year 5 and 6 trip to Glan-llyn Residential Centre*

*We wish all the pupils and staff well who will be spending three days in Glan-llyn next week. The buses will leave the school at approximately 9:30am on Monday, May 20th and return by 3.00 on Wednesday, May 22nd. Details of the trip have already been shared with the parents and guardians.*

Glan-llyn

### *Cricket for year 4*



*We wish the year 4 cricket teams well next week as they play on the Vicarage Fields and on the Ysgol Gymraeg Fields on Tuesday 21st May.*

### *Eisteddfod yr Urdd*

*I will be distributing the entry tickets to the children at the end of next week for the Urdd Eisteddfod in Meifod.*
*For your information, there is free entry for lower income families to the Eisteddfod - here is the link for more information.*

> ***Year 3** – If you are at the Eisteddfod on Monday the 27th of May, you are welcome to go and meet Mrs Buddug Davies at 3 o'clock in the Art and Craft area to receive the 3rd prize for your group work.*

### *The Welsh Language*




** STWNSH SADWRN IS BACK! **
*Do you have any important messages to share on the Stwnsh Sadwrn wall?*
*Stwnsh Sadwrn is back on screen this Saturday morning at 8am*
*Please send any messages in via the link below:*
*https://www.s4c.cymru/cy/stwnsh/stwnsh-sadwrn/page/24859/cysylltu/*
*We look forward to reading your messages on the wall.*

*Bye for now,* Sgwod s+dwrn 😊

### *Gwlad y Rwla*

*After the half term holidays (on the 4th of June) the Reception classes along with Yrs.1 and 2 will visit the Arts Centre to see the show 'Postcard from Gwlad y Rwla'. We are once again grateful to the school governor, Nia Evans, for assisting with the 'Ewch i Weld' grant application which contributes £1,000 towards the costs of the visit.*
*I will share more information regarding times etc soon.*



***Coffee Afternoon***
*We thanked you for your support for the Coffee Afternoon in last week's letter, but it was too early to know how much was raised during the afternoon! Following the sale of the raffle books and the activities on the day a profit of £1480 was made. Thanks especially to Siân, Geraint and Rhian for organising and to everyone who supported during the afternoon.*

***PTA BARBECUE EVENING***
*Following your comments in the questionnaire for parents last year that the Summer Festival and the BBQ are very similar to each other, and within a few weeks to each other, we have decided to merge the two events this year. The evening will be held on the last Thursday, July 18th on the school yard and field. We will share more information with you nearer the time.*

***Half Term Calendar***
*Here is the link to the Half Term Calendar for **this half term**. A link to the calendar is included in every letter, and it lives permanently on the school's website.*

***Important dates for next half term***
*The school will close for half term holidays on Friday the 24th of May, and reopen on Monday the 3rd of June.*
*Year 6 cycling proficiency lessons – June 4th – 7th.*
*Class photos with Tempest – Wednesday 12th June.*
*School Sports Day – Thursday the 20th of June.*
*I.N.S.E.T – The school will be closed to children due to staff training on Friday the 28th of June 2024.*
*The PTA Barbeque will be held on the penultimate night of the summer term, which is Thursday the 18th of July.*

***If you have any concerns about your child's wellbeing or educational development, then please contact me immediately.***

***Yours sincerely,***
***Gareth L James***
***Acting Headteacher***
***17/05/2024***
www.ysgolgymraeg.cymru